

Rhif: WG45437



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2022 drafft

Gorffennaf 2022

OGL © Hawlfraint y Goron
ISBN Digidol 978-1-80364-494-3

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) drafft.

Camau i'w cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt:

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Yr Is-adran Perfformiad a Phartneriaethau - Llywodraeth Leol
Y Gyfarwyddiaeth Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: LGPartnerships@llyw.cymru

Copïau Ychwanegol

Mae'r crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori yn cael eu cyhoeddi ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Cynnwys

ADRAN UN: Rhagymadrodd	4
ADRAN DAU – Crynodeb o’r Ymatebion	7
ADRAN TRI – Ymateb Llywodraeth Cymru i’r Ymgynghoriad ar y Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) (Rhif 2) (Cymru) 2022 Drafft	11
Atodiad A: Rhestr o’r ymatebwyr.....	15

ADRAN UN: Rhagymadrodd

Yr ymgynghoriad hwn

Roedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn darparu ar gyfer creu Cyd-bwyllgorau Corfforedig i sbarduno cydweithredu pellach ar draws llywodraeth leol.

Mae pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig (Cyd-bwyllgor) wedi'u sefydlu sy'n cyd-ffinio ag ardaloedd y bargeinion dinesig a thwf. O fis Mehefin 2022 bydd pob Cyd-bwyllgor yn arfer swyddogaethau mewn perthynas â chynllunio trafndiaeth rhanbarthol, cynllunio defnydd tir strategol a lles economaidd.

Er mwyn caniatáu ystyriaeth briodol, mae Llywodraeth Cymru wedi mynd ati'n raddol i ddatblygu'r fframwaith deddfwriaethol sylfaenol ar gyfer y Cyd-bwyllgorau.

- Ymgynghoriad ar Reoliadau Sefydlu oedd y cam cyntaf ac fe'i cynhaliwyd rhwng 12 Hydref 2020 a 4 Ionawr 2021. Roedd y rhain yn darparu ar gyfer sefydlu pedwar Cyd-bwyllgor yng Nghymru yn 2021. Ochr yn ochr â nifer o offerynnau statudol eraill, roedd y rhain yn sicrhau y byddai'r Cyd-bwyllgorau yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau y byddai disgwyl iddynt fod yn gymwys i gyrff cyhoeddus yng Nghymru; ac yn sicrhau llywodraethu a goruchwyllo priodol. Gwnaed y Rheoliadau Sefydlu hyn ar 17 Mawrth 2021.
- Cynhaliwyd ymgynghoriad ar yr ail gam rhwng 12 Gorffennaf 2021 a 6 Medi 2021. Roedd Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 yn cynnwys darpariaeth ar reoleiddio cyfarfodydd a thrafodion y Cyd-bwyllgorau; rolau rhai 'swyddogion gweithredol', gan gynnwys y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Ariannol; ac i swyddogaethau'r Cyd-bwyllgor gael eu cyflawni gan bobl eraill, er enghraifft ei staff neu ei is-bwyllgorau. Gwnaed y rhain ar 3 Rhagfyr 2021
- Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar y trydydd cam rhwng 10 Tachwedd 2021 a 22 Rhagfyr 2021. Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2022 yn cynnwys darpariaethau mewn perthynas ag ymddygiad, y pŵer i fasnachu a nifer o fân ddarpariaethau sy'n ymwneud â chyllid, achosion cyfreithiol, cofnodion / dogfennau a materion staffio a'r gweithlu. Gwnaed y rhain ar 23 Mawrth 2022.

Ar 28 Mawrth 2022, lansiodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ymgynghoriad ar y Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2022 drafft. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn am wyth wythnos tan 23 Mai 2022.

Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar gam nesaf y dull gweithredu ar gyfer datblygu'r fframwaith deddfwriaethol ehangach a chymhwyso elfennau penodol o'r fframwaith hwnnw. Yn benodol, bydd y rheoliadau drafft yn darparu ar gyfer:

- cymhwyso trefn perfformiad a llywodraethu llywodraeth leol i'r Cyd-bwyllgorau.
- trosolwg a chraffu ar Gyd-bwyllgorau
- ei gwneud yn ofynnol i Gyd-bwyllgor fabwysiadu rheolau sefydlog gweithdrefnol penodol
- nifer bach o newidiadau canlyniadol ac amrywiol eraill i'r deddfwriaeth bresennol

Anfonwyd y ddolen i'r ddogfen ymgynghori at amrywiaeth eang o randdeiliaid, nifer ohonynt yn arweinwyr proffesiynol allweddol mewn llywodraeth leol a fu'n ymwneud â chydgyngychu'r manylion polisi y tu ôl i'r Rheoliadau.

Mae'r Gweinidog wedi mynegi ei diolch ar sawl achlysur, gan gynnwys yn ystod dadleuon y Senedd ar y gwahanol Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig a osodwyd hyd yma, am yr ymgysylltu adeiladol sydd wedi helpu i lunio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer Cyd-bwyllgorau. Mae arweinwyr a swyddogion llywodraeth leol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a rhanddeiliaid allweddol eraill wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynigion ar gyfer y Cyd-bwyllgorau, ac mae'r cyfraniad hwn wedi bod yn amhrisiadwy wrth lunio'r gwaith hwn.

Bydd y rheoliadau cam 4 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft a byddant yn cael eu hystyried gan y Senedd yn yr haf.

Pwy ymatebodd?

Cafwyd 17 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad diweddaraf. Nodir yr ymatebwyr fel a ganlyn:

- 5 Awdurdod Lleol
- 3 Cyd-bwyllgor Corfforedig
- 2 Reoleiddiwr / Archwilydd
- 4 o Asiantaethau'r Llywodraeth neu gyrff eraill yn y sector cyhoeddus
- 3 o Gyrff cynrychioliadol, cyrff proffesiynol neu gymdeithasau (gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru)

Mae rhestr lawn o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad i'w gweld yn **Atodiad A**.

Y camau nesaf

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi tynnu sylw at nifer o feysydd lle dylid diwygio Rheoliadau cam 4 i sicrhau eu bod yn gweithio'n ymarferol yn ôl y bwriad, ac mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar iawn am y safbwyntiau hynny. Bydd y newidiadau hyn yn helpu i adeiladu ar yr hyn sydd eisoes ar waith, gyda'r Rheoliadau a'r Canllawiau'n darparu'r cyfuniad o eglurder a hyblygrwydd y gofynnir amdano. Mae'r meysydd lle mae Rheoliadau cam 4 yn cael eu diwygio wedi'u hamlinellu yn yr adran "Ymateb Llywodraeth Cymru" tua diwedd y ddogfen hon.

Mae'r Gweinidog wedi cadarnhau ei hymrwymiad i barhau i weithio'n agos gydag Arweinwyr ym mhob un o ranbarthau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, a chyda CLILC, Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol a phartneriaid eraill i sicrhau bod yr holl waith i gynorthwyo'r broses o roi'r Cyd-bwyllgorau ar waith yn diwallu anghenion llywodraeth leol a phartneriaid.

Dull datblygu'r crynodeb o ymatebion

Bwriedir i'r ddogfen hon fod yn grynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law. Nid yw'n ceisio nodi'n fanwl bob pwynt a godwyd gan ymatebwyr.

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn 8 cwestiwn i gyd. Mae'r crynodeb o'r ymatebion wedi'i drefnu yn unol â'r cwestiynau hyn.

Mewn rhai achosion, mae ymatebydd wedi darparu un ymateb cyffredinol neu wedi ymateb i faterion penodol ar yr ymgynghoriad o dan ymateb mwy cyffredinol o dan 'materion eraill'. Mae'r ymateb hwn yn cynnwys yr ymatebion hynny fel rhan o'r cwestiwn ar 'faterion cysylltiedig eraill' ond bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y sylwadau hynny yng nghyd-destun rhannau o Reoliadau cam 4 fel y bo'n briodol.

ADRAN DAU – Crynodeb o'r Ymatebion

Cwestiwn 1

A yw Rhan 2 o'r rheoliadau drafft yn darparu'n glir ar gyfer cymhwyso'r gyfundrefn perfformiad a llywodraethu llywodraeth leol o dan Bennod 1 o Ran 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ac astudiaethau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Os nad ydyw, rhwch fanylion sut gellir ei wneud yn gliriach?

Atebodd cyfanswm o 14 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. O'r rhain, roedd 13 yn cytuno bod Rhan 2 o'r Rheoliadau drafft yn darparu'n glir ar gyfer cymhwyso'r gyfundrefn perfformiad a llywodraethu llywodraeth leol. Roedd cytundeb cyffredinol, o ystyried y dull cyffredinol o sicrhau bod y Cyd-bwyllgorau yn cael eu hystyried yn rhan o 'deulu' llywodraeth leol, ei bod yn briodol iddynt fod yn ddarostyngedig i'r un drefn perfformiad a llywodraethu ag awdurdodau lleol.

Roedd sawl ymatebydd, gan gynnwys CLILC, yn cytuno gan ddweud ei bod yn bwysig, o gofio y bydd Cyd-bwyllgorau yn cyflawni set gymharol gyfyngedig o swyddogaethau craidd i ddechrau, bod y gofynion gweinyddol a llywodraethu a osodir arnynt yn gymesur ac nid yn rhy feichus.

Gofynnodd Cyd-bwyllgor y Canolbarth am eglurhad nad yw adran 108(1)-(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cael ei dirymu, ac mai dim ond yn achos Cyd-bwyllgorau y cânt eu disodli gan nad oes gan Cyd-bwyllgorau drefniadau gweithrediaeth.

Ymatebodd Archwilio Cymru 'nac ydyw', gan ofyn a yw'r ddarpariaeth yn Rheoliad 5(3) sy'n dweud bod adran 90 o Ddeddf 2021 "i'w darllen fel pe bai", sy'n golygu wedyn bod gofyn croesgyfeirio rhwng y rheoliadau a'r Ddeddf i ddeall y darpariaethau perfformiad, yn codi'r risg o gamddechongli a allai arwain at lywodraethu gwael a pherfformiad gwael.

Yn eu hymateb cyffredinol i'r ymgynghoriad, gofynnodd Ffederasiwn y Busnesau Bach am osod disgwyliad bod y Cyd-bwyllgorau yn nodi'r ymgysylltiad sydd wedi digwydd gyda busnesau bach yn eu hardal fel rhan o'r broses ymgynghori ar yr hunanasesiad.

Mae rheoliad 3(2) yn diwygio adran 41(1)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 i ychwanegu Cyd-bwyllgorau at y rhestr o gyrff y mae'n rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru ymgymryd ag astudiaethau ohonynt bob blwyddyn ariannol er mwyn galluogi argymhellion ar gyfer gwella darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y ffordd y caiff eu swyddogaethau eu cyflawni.

Yn eu hymateb dywed Archwilio Cymru eu bod o'r farn bod y diwygiad hwn yn ddiangen ac y bydd yn cael effeithiau andwyol. Maent o'r farn bod Cyd-bwyllgorau eisoes yn dod o fewn y diffiniad o gyrff llywodraeth leol yn adran 12 o Ddeddf 2004, felly byddai'r Cyd-bwyllgorau eisoes yn dod o dan adran 41(1)(b) o Ddeddf 2004, sy'n darparu i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal astudiaethau o gyrff llywodraeth leol eraill.

Cred Archwilio Cymru fod y ddarpariaeth bresennol yn darparu i Archwilydd Cyffredinol Cymru ddewis y mathau o gorff llywodraeth leol sy'n destun astudiaeth mewn unrhyw flwyddyn ariannol benodol mewn dull mwy hyblyg, cymesur a llai costus. Byddai'r diwygiad hwn yn dileu disgresiwn yr Archwilydd Cyffredinol a gallai achosi gwariant diangen a dargyfeirio sylw'r Cyd-bwyllgorau a'r archwilwyr oddi wrth flaenoriaethau eraill.

Cwestiwn 2

A ydych yn cytuno y dylid gohirio'r gofyniad i gynnal asesiad panel o berfformiad tan y cylch etholiadol nesaf?

Ymatebodd cyfanswm o 14 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Roedd y mwyafrif, gan gynnwys CLILC, Archwilio Cymru a phob un o'r Cyd-bwyllgorau a ymatebodd, yn cytuno ei bod yn synhwyrol gohirio'r gofyniad i gynnal asesiad panel tan y cylch etholiadol nesaf. Dywedodd CLILC y dylai pwyllgorau llywodraethu ac archwilio a threfniadau craffu newydd y Cyd-bwyllgorau sicrhau atebolrwydd a goruchwyliaeth briodol wrth i'r Cyd-bwyllgorau sefydlu ac ymgorffori eu trefniadau llywodraethu corfforaethol a hunanasesu yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r oedi cyn cyflwyno asesiadau perfformiad panel hefyd yn caniatáu i'r profiadau a'r dysgu o asesiadau cyntaf panel awdurdodau lleol (yn ystod 2022-27) lunio'r broses fel y mae'n berthnasol i Gyd-bwyllgorau.

Roedd ymatebwyr eraill yn amheus ynghylch yr oedi arfaethedig i'r gofyniad. Dywedodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru y byddai oedi tan y cylch etholiadol nesaf yn caniatáu i asesiad o'r Cyd-bwyllgorau beidio â digwydd tan wythnosau cynnar 2031.

Cwestiwn 3

A yw Rhan 3 o'r rheoliadau drafft yn darparu'n glir ar gyfer trosolwg a chraffu ar CBC?

Os nac ydyw, rhwch fanylion sut gellir gwneud hyn yn gliriach.

Ymatebodd cyfanswm o 10 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Roedd saith o'r rhain yn cytuno bod Rhan 3 yn darparu'n glir ar gyfer trosolwg a chraffu ar Gyd-bwyllgorau. Dywedodd CLILC fod trosolwg a chraffu ar y Cyd-bwyllgorau yn hanfodol er mwyn sicrhau atebolrwydd democrataidd lleol i aelodau ehangach o fewn awdurdodau cyfansoddol ac er mwyn cael trosolwg arnynt. Felly, roedd yn cefnogi'r dull gweithredu amlinellol, sy'n rhoi'r hyblygrwydd mwyaf posibl i awdurdodau lleol a Chyd-bwyllgorau.

Awgrymodd Cyngor Dinas Casnewydd fod maint Cyd-bwyllgor y De-ddwyrain yn golygu mai dim ond craffu ar y cyd oedd yn debygol o fod yn effeithiol. Awgrymwyd felly y dylai craffu ar y cyd fod yn orfodol.

Mae rheoliad 8(4) yn darparu nad oes rhaid i Gyd-bwyllgor rannu gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig mewn ymateb i gais gan bwyllgor trosolwg neu graffu awdurdodau lleol cyfansoddol oni bai bod yr wybodaeth yn berthnasol. Yn eu hymateb dywedodd Cyngor Dinas Casnewydd nad oes gofyniad cyfatebol i awdurdodau lleol ddal gwybodaeth yn ôl fel hyn nac i swyddog benderfynu pa mor

berthnasol yw gwybodaeth o'r fath, neu fel arall. Gofynnwyd am i'r gofyniad hwn gael ei ailystyried.

Ymatebodd Cyd-bwyllgor y De-orllewin 'nac ydyw' i'r cwestiwn hwn gan ddweud y byddai'n fuddiol pe gellid cynnwys gwybodaeth sy'n cadarnhau cymesuredd gwleidyddol pwyllgor craffu ar draws y rhanbarth ar gyfer unrhyw gyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu a grëwyd.

Cwestiwn 4

A yw Rhan 4 o'r rheoliadau drafft yn darparu'n glir ar gyfer mabwysiadu rheolau sefydlog penodol?

Os nac ydyw, rhwch fanylion sut gellir gwneud hyn yn gliriach.

Atebodd cyfanswm o 11 o ymatebwyr y cwestiwn hwn ac roedd pob un yn cytuno bod y Rheoliadau drafft yn darparu'n glir ar gyfer mabwysiadu rheolau sefydlog penodol.

Dywedodd Cyd-bwyllgor y De-orllewin y byddai'n fuddiol pe gellid ei gwneud yn glir bod trefniadau o'r fath hefyd yn gymwys pan fo'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn trefnu staff yn uniongyrchol yn hytrach na thrwy drefniadau prynu gan awdurdodau lleol.

Cwestiwn 5

A ydych yn cytuno y dylid diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 i fod yn gymwys i'r CBCau?

Atebodd cyfanswm o 10 o ymatebwyr y cwestiwn hwn ac roedd pob un ohonynt yn cytuno y dylid diwygio Rheoliadau Rheolau Sefydlog Awdurdodau Lleol (Cymru) 2006 i fod yn gymwys i Gyd-bwyllgorau.

Cwestiwn 6

A yw Rhan 5 o'r rheoliadau drafft yn darparu'n glir ar gyfer y nifer bach o ddiwygiadau amrywiol a chanlyniadol a nodwyd?

Os nac ydyw, rhwch fanylion sut gellir gwneud hyn yn gliriach.

Atebodd saith o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd chwech o'r rhain yn teimlo bod Rhan 5 yn rhoi digon o fanylion mewn perthynas â'r maes hwn.

Fodd bynnag, teimlai Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol nad oedd y diwygiadau amrywiol i'r Rheoliadau Sefydlu yn glir o ran beth oedd gofynion aelodaeth is-bwyllgorau llywodraethu ac archwilio.

Cwestiwn 7

Y Gymraeg

Os oes gennych unrhyw farn am yr effeithiau penodol y gallai Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2022 eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, byddem yn croesawu eich barn.

Atebodd dau o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn. Cytunai CLILC nad yw'n ymddangos bod y rheoliadau hyn yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg ac y bydd y Cyd-bwyllgorau yn ddarostyngedig i ofynion statudol mewn perthynas â'r Gymraeg.

Dywedodd Cyngor Sir Gwynedd fod y rheoliadau'n lled-weithdrefnol ac na ddisgwyliid unrhyw effaith benodol ar y Gymraeg.

Cwestiwn 8

Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig sydd heb gael eu trafod yn benodol, mae croeso i chi nodi'r rheini hefyd.

Dywedodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru nad oedd y gallu i'r Cyd-bwyllgorau gyfethol aelodau, gan gynnwys o'r trydydd sector, yn cefnogi'n ddigonol yr egwyddor o bwysigrwydd ymgysylltu â'r sector hwn. Roeddent o'r farn y dylai'r gofyniad i'r Cyd-bwyllgorau ymgysylltu â'r trydydd sector fod yn orfodol.

Yn yr un modd, dywedodd UNSAIN y dylai cynnwys undebau llafur ffurfiol yng ngwaith Cyd-bwyllgorau fod yn orfodol.

Dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ei bod yn bwysig sicrhau bod partneriaethau rhwng llywodraeth leol ac iechyd yn cael eu cynnal a'u defnyddio i'r eithaf mewn unrhyw strwythurau newydd.

ADRAN TRI – Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Ymgynghoriad ar y Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) (Rhif 2) (Cymru) 2022 Drafft

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i weithio gyda llywodraeth leol a rhanddeiliaid ehangach i gefnogi'r gwaith o roi Cyd-bwyllgorau Corfforedig ar waith.

Mae'r adran hon yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ar y Rheoliadau cam 4 drafft, gan gynnwys manylion diwygiad a wneir i'r Rheoliadau drafft ac eglurhad i'w nodi mewn canllawiau statudol wedi'u diweddarau.

Rhan 2

Perfformiad a gwybodaeth sy'n gysylltiedig â pherfformiad

Mae Llywodraeth Cymru yn falch bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn bod y rheoliadau drafft yn darparu'n glir ar gyfer cymhwyso cyfundrefn perfformiad a llywodraethu llywodraeth leol.

Dyletswydd i ymgynghori â phobl leol etc. ar berfformiad

Nododd Ffederasiwn y Busnesau Bach ei bod yn bwysig bod Cyd-bwyllgorau yn ymgysylltu â busnesau bach wrth gynnal asesiad blynyddol. Mae adran 90(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgynghori â phersonau sy'n cynnal busnesau yn ardal y cyngor wrth gynnal hunanasesiad blynyddol. Mae'r addasiadau cyffredinol ym mharagraff 2 o Atodlen 10A newydd Deddf 2021 yn dweud bod cyfeiriadau at 'ardal prif gyngor' i'w darllen fel cyfeiriadau at yr ardal a bennir fel ardal cyd-bwyllgor corfforedig.

Mewn ymateb i Ffederasiwn y Busnesau Bach, a'r pryderon a godwyd gan Archwilio Cymru ynghylch eglurder mewn perthynas â'r gofynion perfformiad yn y ddeddfwriaeth yn gyffredinol, bydd Llywodraeth Cymru yn ailedrych ar y canllawiau statudol i sicrhau bod eglurder ynghylch y gofynion perfformiad ac asesu ar gyfer Cyd-bwyllgorau.

Diwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i ddarparu ar gyfer astudiaethau a chyfarwyddydau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cododd Archwilio Cymru bryderon y byddai diwygiadau i adran 41(1)(a) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, i'w gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal astudiaethau o bob blwyddyn ariannol o ran y ffordd y mae'r Cyd-bwyllgorau y cyflawni eu *swyddogaethau*, yn arwain at waith astudio gormodol, yn ogystal â dargyfeirio sylw Cyd-bwyllgorau ac archwilwyr oddi wrth flaenoriaethau eraill yn ddiangen.

Mae Cyd-bwyllgorau yn dod o fewn diffiniad Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 o gyrrff llywodraeth leol, felly byddent eisoes yn cael eu cynnwys o dan adran 41(1)(b) fel un o'r cyrrff y mae'n rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru ymgymryd ag astudiaethau ohonynt bob blwyddyn ariannol er mwyn galluogi argymhellion ar gyfer

gwella darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y ffordd y caiff eu *gwasanaethau* eu cyflawni.

Bydd peidio â darparu ar gyfer y diwygiad hwn yn golygu mai dim ond mewn perthynas â *gwasanaethau* a ddarperir gan Cyd-bwyllgorau yn hytrach nag mewn perthynas â chyflawni eu *swyddogaethau* y bydd yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal astudiaethau.

O ystyried barn glir Archwilio Cymru bod y ddarpariaeth bresennol yn darparu ar gyfer trefniant archwilio cymesur, fodd bynnag, bydd y diwygiad i adran 41(1)(a) yn cael ei dynnu o'r Rheoliadau.

Asesiad Panel

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai'r gofyniad i gynnal asesiad panel gael ei ohirio tan y cylch etholiadol nesaf. Mewn ymateb i bryderon a godwyd ynghylch hyd y cyfnod cyn i asesiad panel gael ei gynnal, mae'n werth nodi y gellid cynnal asesiad y panel ar unrhyw adeg yn dilyn dechrau'r cylch etholiadol nesaf yn 2027 ac ar ôl hynny bydd y Cyd-bwyllgorau wedi ymgymryd â digon o weithgarwch i wneud panel asesu'n ystyrlon ac yn gymesur

Byddai'n dal yn ofynnol i'r Cyd-bwyllgorau gynnal ymarfer hunanasesu blynyddol. Nododd Archwilio Cymru hefyd y byddent yn cynnal yr archwiliad blynyddol o gyfrifon a fyddai'n asesu a oedd Cyd-bwyllgor wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

Rhan 3

Trosolwg a Chraffu

Mae Llywodraeth Cymru yn falch bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod rhan 3 yn darparu'n glir ar gyfer trosolwg a chraffu ar Cyd-bwyllgorau.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan Gyngor Dinas Casnewydd, er bod Llywodraeth Cymru yn cytuno y gallai craffu ar y cyd fod yn fwy effeithiol mewn rhai achosion ar gyfer arbedion maint, rydym wedi darparu hyblygrwydd yn fwriadol yn fframwaith cyfreithiol Cyd-bwyllgorau i ganiatáu i ranbarthau roi trefniadau craffu ar waith yn seiliedig ar eu hamgylchiadau penodol, yn hytrach na dull 'un ateb sy'n addas i bawb'.

Dyletswydd i gydweithredu o ran trosolwg a chraffu

Cododd Cyngor Dinas Casnewydd bryderon hefyd am y rheoliad sy'n darparu nad oes rhaid i Cyd-bwyllgor rannu gwybodaeth gyfrinachol nac eithriedig mewn ymateb i gais gan bwyllgor trosolwg neu graffu awdurdodau lleol cyfansoddol oni bai bod swyddog priodol yn barnu bod y wybodaeth yn berthnasol – gan ddadlau nad oeddent yn credu bod gofyniad cyfatebol i awdurdodau lleol gadw gwybodaeth yn ôl fel hyn.

Gallwn gadarnhau bod darpariaeth gyfatebol yn Rheoliad 11 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a

Chyfarfodydd) (Cymru) 2001 mewn perthynas â hawliau mynediad i aelodau pwyllgorau trosolwg a chraffu.

Cymesuredd gwleidyddol pwyllgor craffu

Roedd yr ymgynghoriad Cam 4 hwn yn cynnwys dolen at ymgynghoriad ar wahân ar ganllawiau statudol diwygiedig a gyhoeddwyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ar drosolwg a chraffu a fydd yn dod i ben ar 22 Gorffennaf 2022.

Bydd sylwadau Cyd-bwyllgor De-orllewin Cymru ynghylch egluro'r gofynion o ran cymesuredd gwleidyddol yn cael eu hystyried wrth ddadansoddi'r ymgynghoriad ar ganllawiau trosolwg a chraffu. Ar hyn o bryd, mae'r canllawiau drafft hynny'n nodi dull manwl o sefydlu cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu, gan gynnwys dweud, ym mharagraff 12.29:

“Er mwyn sicrhau bod cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu yn cynrychioli buddiannau pob awdurdod lleol yn deg, mae'n rhaid dyrannu nifer cyfartal o seddi ar y pwyllgor i bob un o'r cynghorau sy'n cymryd rhan. Nid yw'n ofynnol i gyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu gael cydbwysedd gwleidyddol eu hunain, ond dylai pob cyngor sy'n aelod geisio sicrhau bod aelodau o'r cyd-bwyllgor y mae'n eu cynnig yn adlewyrchu'r cydbwysedd gwleidyddol yn y cyngor i'r graddau mwyaf posibl.”

Rhan 5

Is-bwyllgorau llywodraethu ac archwilio

Bydd canllawiau'n cael eu hailystyried i sicrhau eu bod yn egluro na ddylai o leiaf draean o aelodau'r is-bwyllgorau llywodraethu ac archwilio fod yn aelod o unrhyw gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yn unman yng Nghymru. Nid yw hyn yn berthnasol i gynghorwyr cymuned. Rhaid i'r ddwy ran o dair sy'n weddill fod yn aelodau cyfansoddol o'r cyngor, ond nid yn aelodau o weithrediaeth unrhyw un o gynghorau cyfansoddol y Cyd-bwyllgor.

Y Gymraeg

O ran effaith Rheoliadau drafft Cam 4 ar y Gymraeg, mae Llywodraeth Cymru yn croesawu barn gyffredinol ymatebwyr na fyddai Rheoliadau cam 4 yn cael unrhyw effaith sylweddol ar y Gymraeg. Daeth rheoliadau diwygio i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 1 i rym ar 3 Rhagfyr 2021 a fydd yn ychwanegu Cyd-bwyllgorau Corfforedig at Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 1.

Materion eraill

Ymgysylltu â'r Trydydd Sector ac Undebau Llafur

Mae'r canllawiau statudol yn glir bod disgwyliad y dylai'r Cyd-bwyllgorau ymgysylltu ag eraill a chynnwys eraill yn eu gwaith drwy gyfethol. Fodd bynnag, cynlluniwyd y fframwaith cyfreithiol ar gyfer Cyd-bwyllgorau i ddarparu hyblygrwydd i ranbarthau ymgysylltu ag eraill yn seiliedig ar eu hamgylchiadau unigryw eu hunain.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu parhau i ymgysylltu â'r Cyd-bwyllgorau i'w helpu i'w gweithredu. Mae hyn yn cynnwys cynnal cyfres o weithdai i drafod heriau a chyfleoedd sy'n gyffredin, megis sut i ymgysylltu'n effeithiol a chynnwys eraill, gan gynnwys y trydydd sector.

Atodiad A: Rhestr o'r ymatebwyr

Awdurdodau Lleol

Cyngor Gwynedd
Cyngor Dinas Abertawe
Cyngor Dinas Casnewydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Cyngor Sir Penfro
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth
Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain
Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin

Asiantaethau'r Llywodraeth / Corff arall yn y sector cyhoeddus

Archwilio Cymru
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol

Y Trydydd Sector

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cyrff cynrychioli, cyrff proffesiynol neu gymdeithasau

Ffederasiwn y Busnesau Bach
UNSAIN